Cyngor sir ddinbych
denbighshire County Council

At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 21 Mehefin 2023

Rhif Union: 01824712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 27 MEHEFIN 2023** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRWY GYNHADLEDD FIDEO**.

Yn gywir iawn

G Williams
Swyddog Monitro

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu sy'n peri rhagfarn ag unrhyw fater i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 7 - 16)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 23 Mai 2023 (copi ynghlwm).

**5 Y CYNGOR YN GWEITHREDU FEL CORFF ARWEINIOL AR GYFER ADNEWYDDU CYTUNDEB GOFAL CARTREF RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU** (Tudalennau 17 - 54)

Ystyried adroddiad ar y cyd gan y Cynghorwyr Elen Heaton, Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gill German, Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd (copi ynghlwm), yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i'r Cyngor weithredu fel y Corff Arweiniol ar gyfer adnewyddu Cytundeb Gofal Cartref Rhanbarthol Gogledd Cymru.

**6 STRATEGAETH Y GYMRAEG 2023-28** (Tudalennau 55 - 166)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Emrys Wynne, Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth (copi ynghlwm), yn cyflwyno Strategaeth newydd y Gymraeg i'r Cabinet ei chymeradwyo.

**7 HUNANASESIAD Y CYNGOR O'I BERFFORMIAD 2022 I 2023** (Tudalennau 167 - 288)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm), yn cyflwyno Hunanasesiad y Cyngor o'i Berfformiad ar gyfer 2022 i 2023 er mwyn i'r Cabinet ei ystyried a'i gadarnhau cyn ei gyflwyno i'r Cyngor.

**8 ADRODDIAD CYLLID** (Tudalennau 289 - 364)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm), ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

**9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET** (Tudalennau 365 - 370)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet sydd ynghlwm a nodi'r cynnwys.

**10 MARCHNAD Y FRENHINES – CAFFAEL GWEITHREDWR** (Tudalennau 371 - 414)

Ystyried adroddiad **(sy'n cynnwys dau atodiad cyfrinachol)** gan y Cynghorydd Jason McLellan, yr Arweinydd ac Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu Amddifadedd (copi ynghlwm), yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu contract i'r cyflenwr a ffefrir ar gyfer gweithredu Marchnad y Frenhines.

**RHAN 2 – EITEMAU CYFRINACHOL**

GWAHARDD Y WASG A’R CYHOEDD

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitem fusnes ganlynol yn cael ei thrafod oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y'i diffinnir ym mharagraff 14, Rhan 4, Atodlen 12A y Ddeddf.

**11 ESTYNIAD I GONTRACTAU PROSIECT ATAL DIGARTREFEDD AMLDDISGYBLAETHOL ADULLAM, PROSIECT WALLICH GIFT A NO SECOND NIGHT OUT CLWYD ALYN (TŶ GOLAU)** (Tudalennau 415 - 440)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau (copi ynghlwm), yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ymestyn contractau Prosiect Atal Digartrefedd Amlddisgyblaethol Adullam a Phrosiect Wallich GIFT, ac ymestyn y cytundeb cydweithredol sydd ar waith ar gyfer y prosiect No Second Night Out (Tŷ Golau).

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

Gwyneth Ellis
Gill German
Elen Heaton
Julie Matthews
Jason McLellan
Barry Mellor
Win Mullen-James
Rhys Thomas
Emrys Wynne

**COPIAU I’R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a’r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned